

UT I WERTHU I WASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

Arweiniad i Gyflenwyr / Contractwyr Presennol a Phosib



Contents

Cyflwyniad	2
Agor Drysau – Y Siarter Ar Gyfer Caffael Sy'n Gyfeillgar I Fusnesau Bach A Chanolig	3
Caffael O Fewn Y Gwasanaeth	5
Manteision Gweithio Gyda Ni	6
Ein Terfynau Tandro	7
Sut I Ganfod Y Cyfleoedd Ar Gyfer Cytundebau Neu Ddyfynbrisiau A Gynigir Gennym	8
Y Broses Dendro	8
Sut I Ddod Yn Gontractwr Cymeradwy I'r Adran Ystadau	9
Rhoi Cytundebau	11
Ceisio Atborth Wedi Rhoi Cytundeb	12
Archebion Pryniant Ac Anfonebau	12
Cyflawni Cytundebau	12
Pethau I'w Gwneud Ac I Beidio Â'u Gwneud	13
Manylion Cyswllt Yr Adran Caffaeliad	14

Cyflwyniad

Ffurfiwyd Brigâd Dân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar y 1af o Ebrill 1996, pan unodd Brigadau Tân blaenorol Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Arweiniodd cyflwyniad y Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub yn 2004 at ymestyn rôl y Frigâd yn sylweddol, gyda gweithgareddau megis gwaith diogelwch yn y gymuned, mynychu gwrthdrawiadau ar y ffordd ac argyfyngau eraill, yn cael eu hychwanegu at rôl draddodiadol y diffoddwr tân, ac ar y 1af o Fedi 2004 fe newidiwyd ein henw i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i adlewyrchu hyn.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn sefydliad sector cyhoeddus, sy'n dod o dan awdurdod Llywodraeth Cymru. Mae Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ymddwyn fel y prif gorff sy'n gwneud penderfyniadau ac mae'n rheoli mabwysiad llawer o arferion gweithio, yn unol â'r canllawiau statudol a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae ardal y Gwasanaeth yn cwmpasu rhyw 4,500 o filltiroedd sgwâr, ac mae'n cynnwys bron i ddwy ran o dair o dirfas Cymru. Mae amrywiaeth eang o risgiau i'w cael o fewn ein hardal weithredol, yn amrywio o'r diwydiannau petrogemegol yn Aberdaugleddau, Sir Benfro a Llansawel, Castell-nedd, i'r risgiau sy'n ymwneud â chytrefi poblog iawn megis Abertawe, Port Talbot a Llanelli. Ceir yna gymunedau ffermio helaeth a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill yn yr ardal. Mae'r rhain, ynghyd â'r morlin helaeth a'r dyfrffyrdd mewndirol, ymhlith y risgiau arbenigol sydd i'w cael yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Trefnir Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i chwe Ardal Reoli Sirol, un yr un i gwmpasu ardaloedd awdurdod unedol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Dinas a Sir Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot, Sir Benfro a Phowys. Lleolir y Pencadlys canolog yng Nghaerfyrddin. Mae staff o fewn y Gwasanaeth yn cynnwys cymysgedd o orsafoedd llawn amser, criw dydd, wrth gefn a gwirfoddol, sy'n dod i gyfanswm o 57 o orsafoedd. Ar hyn o bryd, mae gennym oddeutu 1,400 o staff, yn cynnwys staff gweithredol a staff cefnogi.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn prynu cyflenwadau, gwasanaethau a gwaith, sy'n amrywio mewn gwerth o ychydig bunnoedd i lawer o gannoedd o filoedd, ac mae'n gwario oddeutu £14m fesul blwyddyn ar gyflenwadau o nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae hyn yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd masnachol i gyflenwyr a chontractwyr o bob math a maint.

Mae Strategaeth Caffaeliad Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru'r CFOA yn amlinellu'r dynesiad yng Nghymru, ac mae strategaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cyd-fynd â'r fersiwn hwn. Mae'r strategaeth hwn yn gymwys i gaffael o bob math e.e. nwyddau, gwasanaethau (yn cynnwys ymgynghoriaeth ac ymchwil), gwaith ac adeiladu (yn cynnwys cynlluniau cyfalaf). Mae gwariant cymorth grant yn disgyn oddi fewn i'r un cylch gwaith a does dim eithriadau. Wrth gyflawni'r strategaeth bydd unigolion yn ymddwyn gyda chywirdeb a

gonestrwydd, byddant yn sicrhau gwerth am arian, yn cymell gwelliant parhaus ac yn ceisio datrysiadau arloesol, lle bod hynny'n briodol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ymrwymedig i ddarparu'r wybodaeth orau posib am y cyfleoedd sydd ar gael, a'r gweithdrefnau sydd angen eu dilyn i ymateb i dendrau a cheisiadau am ddyfynbrisiau, er mwyn cael gwared ar y rhwystrau sy'n bodoli rhwng cyflenwyr / contractwyr a'r sector cyhoeddus.

Bwriad yr arweiniad hwn yw dangos i gyflenwyr a chontractwyr sut i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael. Mae'n ceisio rhoi gwybodaeth a chyfarwyddyd i gyflenwyr a chontractwyr presennol a phosib i wneud cais am gytundebau'r Gwasanaeth. Hefyd, bydd yn esbonio pa ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar ofynion tendro'r Gwasanaeth, ac yn disgrifio'r gweithdrefnau sy'n ofynnol i wneud cais am waith trwy:

- Esbonio'r rheolau caffael sy'n rhaid i'r Gwasanaeth eu dilyn
- Amlinellu trothwyau tendro'r Gwasanaeth
- Manylu am sut yr ydym yn hysbysebu tendrau a cheisiadau am ddyfynbrisiau (RFQ)
- Esbonio sut i wneud cais am waith y Gwasanaeth

Mae'r arweiniad hwn yn rhan o'n hymrwymiad at "Agor Drysau – Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig" Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr ydym yn rhan ohono.

“Agor Drysau – Y Siarter Ar Gyfer Caffael Sy'n Gyfeillgar I Fus- Nesau Bach A Chanolig”

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cydnabod fod caffaeliad yn faes sy'n newid o hyd, ac mae'n bwysig fod busnesau bach a chanolig a'r sector cyhoeddus yn deall prosesau a disgwyliadau ei gilydd. O ganlyniad, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymuno ag "Agor Drysau – Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar o Fusnesau Bach a Chanolig" Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Siarter yn anelu at osod lefel lleiaf o arfer da ar gyfer y ddwy ochr. Rydym ni fel Gwasanaeth yn ymrwymedig i:

- Fod yn fwy cyfarwydd â busnesau bach a chanolig yn ein hardal, a'r gwasanaethau maent yn eu darparu.
- Cymryd camau i ganfod pa rwystrau sy'n ein hatal rhag ymwneud â busnesau bach a chanolig priodol, a cheisio eu gostwng neu gael gwared arnynt.
- Peidio â chymryd yn ganiataol mai'r cyflenwyr mwyaf sy'n cynnig y gwerth gorau am arian bob amser.
- Cyhoeddi cyfarwyddyd, yn cynnwys dogfennau ar lein, a briffio busnesau bach a chanolig ar ein gofynion, y cyfleoedd sydd ar gael gennym, gyda phwy ddylen nhw

gysylltu, a sut i dendro am ein busnes.

- Gwneud hi'n haws i fusnesau bach a chanolig i siarad â ni.
- Sicrhau fod ein holl brosesau'n cynnig cyfleoedd cyfartal i fusnesau bach a chanolig.
- Chwilio am y canlyniadau cyffredinol gorau o'n gweithgareddau caffael, gan ddefnyddio meini prawf gwerth am arian eang i wneud penderfyniadau.
- Sicrhau cystadleuaeth ddilys a theg nad sy'n gwahaniaethu yn erbyn busnesau bach a chanolig.
- Hysbysebu ein cytundebau a cheisiadau am ddyfynbrisiau sydd werth dros £5,000 yn fwy eang, trwy ddefnyddio gwefan Sell2Wales (www.sell2wales.co.uk).
- Croesawu ceisiadau gan gyflenwyr a chontractwyr newydd.
- Cymell ein prif gyflenwyr i roi cyfle i fusnesau bach a chanolig i gyflawni elfennau o gytundebau priodol.
- Croesawu cynigion gan fusnesau bach sy'n gydweithredol neu ar sail consortiwm.
- Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth caffaeliad UE a DU cymwys, yn enwedig yr egwyddor o beidio â gwahaniaethu, a chymhwyso'r rheolau i bawb sy'n tendro mewn modd teg a thryloyw.

Yn ogystal, rydym yn ymrwymedig i ddatblygiad cynaliadwy ac rydym wedi ymuno â Rhaglen Caffael Gynaliadwy Gwerth Cymru, sy'n golygu y byddwn yn:

- Defnyddio meini prawf datblygiad cynaliadwy wrth benderfynu ar werth am arian, yn cynnwys asesu'r effaith economaidd, a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol.
- Hefyd, byddwn yn cymell busnesau bach a chanolig i fynd i'r afael â datblygiad cynaliadwy.

Byddwn yn ymdrechu i foderneiddio ein prosesau caffael, i sicrhau eu bod yn dryloyw a theg i bob busnes bach a chanolig. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- Sicrhau fod personél medrus a phroffesiynol yn rheoli'r prosesau.
- Cadw ein prosesau tendro mor syml ag sy'n bosib er mwyn lleihau'r gost.
- Edrych ar y gost yn ei gyfanrwydd, nid cost gychwynnol y cynnyrch / gwasanaeth yn unig wrth ystyried gwerth am arian.
- Esbonio ein prosesau caffael i fusnesau bach a chanolig, a sut ma'er angen i gydymffurfio gyda chyfraith caffaeliad yr UE a'r DU yn effeithio arnynt.
- Rhoi digon o rybudd i fusnesau bach a chanolig am newidiadau i'n prosesau, er mwyn rhoi amser iddynt i addasu.
- Lleihau'r weinyddiaeth sydd ei angen i dendro, symleiddio ein dogfennau, darparu papurau briffio clir sy'n nodi ein holl ofynion, a defnyddio iaith glir.
- Symud tuag at ddynesiad Cymru gyfan gyson at ddogfennau cyn cymhwyso a dogfennaeth cytundeb safonol.
- Mabwysiadu e-gaffaeliad yn cynnwys e-arwerthiannau, cardiau caffael ac anfonebu electronig, i wella effeithlonrwydd, lle bod hynny'n briodol.
- Ystyried y dynesiad mwyaf priodol i gyflawni gwerth am arian a rheoli risg ar gyfer pob caffaeliad.
- Pecynnu cytundebau mawr i elfennau ar wahân, neu ddefnyddio lotiau

rhanbarthol os yn briodol, i sicrhau nad yw busnesau bach a chanolig yn cael eu heithrio rhag tendro.

- Rhoi cyfle i gyflenwyr o fusnesau bach a chanolig posib i drafod caffaeliad, er mwyn deall ein gofynion ac asesu eu haddasrwydd eu hunain.
- Hysbysu busnesau bach a chanolig o'r meini prawf a ddefnyddiwn i werthuso ceisiadau i dendro a thendrau.
- Penderfynu beth yw ein gofynion o ran cymhwyso'n ariannol ar sail tendr wrth dendr, wedi asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig.
- Ble fod hynny'n briodol, peidio gofyn am fwy na dwy flynedd o gyfrifon archwiliedig, a derbyn gwybodaeth arall oddi wrth fusnesau mwy newydd.
- Defnyddio manylion yn seiliedig ar allbynnau ac ystyried cynnyrch neu wasanaethau eraill y mae'r busnesau bach a chanolig yn dymuno'u cynnig.
- Cynnig atborth i'r rhai a fu'n llwyddiannus neu'n aflwyddiannus wrth dendro, er mwyn helpu busnesau bach a chanolig i wella.
- Trin pob busnes bach a chanolig yn deg, a thalu o fewn 30 diwrnod i ni dderbyn anfoneb ddiamheuol.

Yn gyfnewid, rydym yn gofyn bod busnesau bach a chanolig yn barod i:

- Gofrestru ar y Wefan Caffaeliad Cenedlaethol – www.sell2wales.gov.uk.
- Darparu gwybodaeth bellach pan fod angen, fel y gallwn ddeall eu busnes.
- Manteisio ar y cyfleoedd a gynigwn iddynt i gwrdd â ni.
- Sicrhau eu bod yn gwybod beth yr ydym yn ei ddisgwyl ganddynt er mwyn diwallu ein gofynion, ac os nad ydynt yn gwybod, eu bod yn ceisio cyngor.
- Ceisio yn weithgar am gyfleoedd i dendro, yn cynnwys trwy gyfrwng www.sell2wales.co.uk.
- Bod yn realistig wrth asesu eu gallu eu hunain i gyflawni pob cytundeb.
- Ymgymryd ag e-gaffaeliad, a medru'r Rhyngrwyd o leiaf a sefydlu cyfeiriad e-bost, i sicrhau nad ydynt o dan anfantais.
- Sicrhau fod yr holl weithgareddau'n cael eu cyflawni mewn modd gonest a chyfrifol.
- Gwella cyfraniad eu busnes at ddatblygiad cynaliadwy yn gyson.
- Datblygu a gweithio gyda'u cadwyni cyflenwi i gynnwys busnesau bach a chanolig eraill.
- Trin eu cyflenwyr yn deg, a thalu o fewn 30 diwrnod iddynt dderbyn anfoneb gywir.
- Diweddarau sgiliau personél a gallu'r busnes yn gyson, ceisio cymorth gan Asiantaethau Cefnogi Busnesau, os yn briodol.
- Ystyried cydweithredu gyda chyflenwyr eraill, os yw hyn yn gwneud eu gwasanaeth yn fwy cystadleuol neu os yw'n lleihau'r risg.

Caffael O Fewn Y Gwasanaeth

Datganolwyd caffael beunyddiol o fewn y sefydliad ac mae'r rheolwyr cyllideb yn gyfrifol am brynu ar gyfer eu hadrannau eu hunain, yn unol â chynllun dirprwyo ariannol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac yn unol â rheolau sefydlog y cytundebau, lle mae'n rhaid i'r rheolwyr cyllideb sicrhau cydymffurfiaeth.

Yn ogystal, mae yna adran caffaeliad ganolog sy'n gyfrifol am ddwy swyddogaeth, sef Caffaeliad Corfforaethol, a leolir yn y Pencadlys yng Nghaerfyrddin, a Phrynu a Chyflenwi, a leolir yn Earlswood, Pentrecaseg.

Mae'r swyddogaeth Caffaeliad Corfforaethol yn ymdrin â phob agwedd o Brynu a Chyflenwi, o'u caffael yn y lle cyntaf i'w gwaredu, ac mae'n ymgorffori materion cynaliadwy yn cynnwys ffactorau darbodus, moesegol ac amgylcheddol. Mae'r swyddogaeth Caffaeliad Corfforaethol yn ymrwymedig i ddatblygiad parhaus a chyflawni Gwerth Gorau wrth gefnogi amcanion corfforaethol, mae'n anelu at reoli newid ym maes prynu o'r dulliau traddodiadol a darparu atebion arloesol mewn ymateb i anghenion cynyddol ac amrywiol y Gwasanaeth, wrth ddatblygu a gweithredu strategaeth caffaeliad i gyflawni effeithlonrwydd o ran costau ac arbedion.

Mae'r meysydd arall o gyfrifoldeb yn cynnwys:

- Rheoli rhwydwaith o gyflenwyr, pobl sy'n gwneud penderfyniadau, partneriaethau a threfniadau cydweithrediadol.
- Sefydlu a datblygu trefniadau a phrosesau prynu.
- Monitro cydymffurfio o ran caffael o fewn y Gwasanaeth.
- Rheoli amryw o brosiectau o'r cychwyn i'r diwedd.
- Arolygu cytundebau sy'n bwysig yn strategol.
- Rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar gaffael, pan fod angen.
- Darparu rheolwr cytundeb ar gyfer meysydd penodol o wariant.

Mae'r swyddogaeth Prynu a Chyflenwi yn gyfrifol am drefnu a rheoli'r modd mae eitemau gweithredol yn bennaf, sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth trwy'r Storfa Ganolog, yn cael eu canfod, eu prynu, eu storio a'u dosbarthu. Mae'r swyddogaeth yn gweithredu ar sail cyflenwi "mewn union bryd" ac mae'n dosbarthu'n wythnosol ar draws ardal y Gwasanaeth.

Mae'r Gwasanaeth yn ymdrin â chytundebau o amrywiol fathau, o bryniannau uni-gryw i gytundebau am gyflenwadau, gwasanaethau neu waith a fydd yn para am gyfnod penodol cyn bod angen ei adnewyddu. Wrth osod cytundebau mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn sicrhau ei fod yn cael y "gwerth gorau am arian" trwy ddewis y cynnig neu'r dyfynbris sy'n rhoi'r cyfuniad gorau o gostau a manteision trwy gydol y cytundeb, i ddiwallu gofynion y Gwasanaeth.

Mae caffaeliad effeithiol yn cefnogi nod y Gwasanaeth o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, gwerth am arian, a chynladwyedd ar gyfer trigolion Canolbarth a Gorllewin Cymru, nawr ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw ein holl ofynion yn cael eu diwallu trwy brynu'n uniongyrchol ein hunain. Rydym ni hefyd yn gwneud cytundebau cydweithrediadol gyda gwasanaethau brys eraill a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, yn ogystal â gwneud trefniadau fframwaith wedi eu tendro o flaen llaw, megis fframweithiau sector cyhoeddus Gwerth Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, fframweithiau'r llywodraeth (Buying Solutions), Firebuy, consortia eraill (e.e. Consortiwm Prynu Cymru) neu sefydliadau prynu ayb.

Manteision Gweithio Gyda Ni

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn anelu at fod yn deg, tryloyw a phroffesiynol wrth ymdrin â'i gyflenwyr a'i contractwyr. Dylai'r arweiniad hwn eu darparu â digon o wybodaeth i benderfynu p'un ai i ymateb i'n tendrau neu geisiadau am ddyfynbrisiau ai peidio. Fodd bynnag, gan fod cymaint o gystadleuaeth am gytundebau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, nid yw'r arweiniad hwn yn medru sicrhau cwmnïau unigol y byddant yn llwyddiannus.

Mae hwn yn rhan o ddynesiad ffres, newydd a brwdfrydig at gaffael yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, sy'n anelu at safoni ei ddulliau o gaffael, gan wneud cyfleoedd yn weladwy a sicrhau tryloywder ei brosesau.

Ein Terfynau Tendro

Mae gennym drothwyau caffael mewn lle sy'n pennu'r dull sylfaenol a ddefnyddiwn i gaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Gellir gweld ein terfynau tendro presennol yn y tabl isod.

Contract Value	Method of procurement
Up £1,000	Rhaid i'r rheolwr cyllideb sicrhau gwerth am arian.
£1,001 - £9,999	O leiaf 3 dyfynbris ysgrifenedig neu Cais am Ddyfynbris trwy gyfrwng sell2wales.
£10,000 - £119,999	Cais am Ddyfynbris ffurfiol trwy gyfrwng gwefan sell2wales
£120,000 - Trothwyau'r UE	Tendro'n ffurfiol trwy gyfrwng sell-2wales.
Trothwyau'r UE ac uchelach	Tendro'n ffurfiol trwy gyfrwng sell2wales gyda hysbysebion mewn cyfnodolion neu pyrth caffael arbenigol fel sy'n briodol.

Oherwydd bod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn sefydliad sector cyhoeddus, mae'n rhaid i ni ddilyn y Gyfraith Ewropeaidd ar Brynu yn y Sector Cyhoeddus, ac felly mae'n rhaid i ni gydymffurfio gyda'r Trothwyau Tendro Ewropeaidd presennol.

Gwerth cytundeb prynu, er dibenion y rheoliadau yma, yw gwerth oes gyfan y cytundeb, nid ei werth blynyddol yn unig, a rhaid iddo gynnwys pob cytundeb i'r un diben (h.y. ni fedrwch dorri gofyn prynu i lawr i rannau bach er mwyn osgoi'r rheoliad). I gael gwybodaeth bellach ac i weld y Trothwyau Tendro Ewropeaidd diweddaraf ymwelwch â gwefan yr OJEC ar [www. OJEC.com](http://www.OJEC.com).

Caiff terfynau caffael yr UE eu hadolygu bob 2 flynedd, a'u diwygio os oes angen ar y 1af o Ionawr. Gellir dod o hyd i'r Trothwyau Tendro Ewropeaidd presennol, a ddaeth i rym ar y 1af o Ionawr 2016, ar y tabl dros y dudalen.

Cyflenwadau	Gwasanaethau	Gwaith
£164,176	£164,176	£4,104,394

Sut I Ganfod Y Cyfleoedd Ar Gyfer Cytundebau Neu Ddyfynb- Risiau A Gynigir Gennym

Mae ble a sut yr ydym yn hysbysebu ein cytundebau a'n ceisiadau am ddyfynbrisiau'n dibynnu ar eu math, eu gwerth a gofynion cyfreithiol rhoi'r fath gytundebau. Ein dull pennaf o hysbysebu cyfleoedd ar gyfer cytundebau yw trwy gyfrwng y Wefan Caffaeliad Cenedlaethol, Sell2Wales (www.sell2wales.gov.uk). Cynllun gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw Sell2Wales, sy'n anelu at helpu busnesau bach a chanolig i weithio'n llwyddiannus gyda sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Mae'r wefan yn rhestru'r holl dendrau sector cyhoeddus a gyhoeddwyd yng Nghymru, ac mae modd i gyflenwyr a chontractwyr gofrestru am ddim. Unwaith bydd cyflenwyr wedi cofrestru gallant gael eu diweddarau ar e-bost am gyfleoedd i dendro wrth iddynt amlygu. Rydym yn cymhell ein holl gyflenwyr a chontractwyr presennol a

phosib i gofrestru ar y safle, gan y bydd y mwyafrif o'n cyfleoedd ar gyfer cytundebau'n cael eu hysbysebu trwy gyfrwng y porth hwn.

Bydd Contractau dros £10,000, ond sydd o dan y trothwyau tendro Ewropeaidd, yn cael eu hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru. Bydd Contractau rhwng £10,000 a £119,999 yn cael eu hysbysebu fel Gwahoddiad i Gynnig Dyfynbris (ITQ) / Hysbysiad Contract, tra bydd Contractau rhwng £120,000 a throthwyau tendro'r UE yn cael eu hysbysebu fel Tendrau Ffurfiol

Bydd cytundebau sydd uwchlaw terfynau tendro'r UE yn cael eu hysbysebu ar wefan

Sell2Wales yn ogystal ag yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU). Pwrpas hysbysebu yn yr OJEU yw i holl wledydd y CE i gael cyfle cyfartal i dendro am gytundebau.

Mae'r rheoliadau yn galw ar y Gwasanaeth i sicrhau nad yw'r manylion yn cynnwys unrhyw beth a allai fod yn wahaniaethol e.e. ni fedrwn nodi modelau penodol na cheisio ymgeiswyr o Brydain yn unig.

Mae'n rhaid i bob cytundeb sydd dros derfynau tendro'r UE fod yn agored i holl ddarparwyr Ewrop.

Byddwch yn ymwybodol, os gwelwch yn dda, ei bod hi'n bosib y bydd rhai o gytundebau'r gwasanaethau brys yn cael eu hysbysebu mewn cyfnodolion arbenigol neu ar byrth penodol y sector tân ac achub, megis y porth Bluelight (www.bluelight.gov.uk) fel sy'n briodol. Caiff cyflenwyr gofrestru am ddim ar y porth Bluelight.

Ble mae cytundebau'n cael eu hysbysebu a hoffai eich cwmni gael ei ystyried, mae'n rhaid i chi lynu wrth gyfarwyddiadau'r cais, a fanylir yn yr hysbyseb, bob amser.

Y Broses Dendro

Fel arfer, mae tendrau sy'n cael eu hysbysebu'n dilyn naill ai gweithdrefn dendro gyfyngedig neu agored.

Mae Tendr Cyfyngedig yn golygu y bydd gofyn i chi fynegi diddordeb mewn tendro, a bydd angen i chi gwblhau Holiadur Cyn Cymhwyso (PQQ) er mwyn asesu eich addasrwydd, eich profiad âch arbenigedd. Mae'r broses asesu'n edrych ar y meysydd canlynol:

Y Cwmni Technegol Ariannol

Gwybodaeth sylfaenol am eich cwmni.
Eich enw da, a fydd yn cynnwys manylion am ganolwr priodol.
Byddwn yn gofyn i chi a fedrwn chi ddarparu cyfrifon archwiliedig ar gyfer tair blynedd (neu ar gyfer y cyfnod yr ydych wedi bod yn masnachu os yw'n llai na 3 blynedd).

Sicrwydd Ansawdd

Ar gyfer cytundebau penodol, bydd gofyn i sefydliadau i arddangos fod ganddynt system sicrwydd ansawdd addas.
Gellir arddangos hyn trwy gyfrwng ardystiad gan gwmni asesu cymeradwy neu gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wrth adolygu'r cwmni a derbyn llawlyfr an sawdd y sefydliad.

Cydraddoldeb

Byddwn yn gofyn i chi am eich ymlyniad â deddfwriaeth cydraddoldeb, yn cynnwys y Deddfau Cydberthnasau Hiliol a Gwahaniaethu ar sail Anabledd perthnasol.

Iechyd a Diogelwch

Byddwn yn gofyn i chi amlinellu'r trefniadau Iechyd a Diogelwch o fewn eich cwmni.

Yswiriant

Mae'n rhaid bod gennych Yswiriant Cyflogwr (os yn gymwys) ac Atebolrwydd Cyhoeddus. Gan ddibynnu ar natur eich

Yr Amgylchedd a Chynladwyedd

cytundeb, mae'n bosib bydd angen Yswiriant Atebolrwydd Cynnyrch a/neu Indemnïad Proffesiynol arnoch.

Bydd gofyn i chi egluro eich ymrwymiad at faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd.

Mae gweithdrefn Tendr Agored, yn golygu y gall cwmni sydd â diddordeb dendro am y cytundeb. Mae'n bosib y bydd dal yn rhaid i chi fynegi eich diddordeb yn y cytundeb, ond byddwch yn cael eich gwahodd yn awtomatig i gyflwyno tendr. Yna bydd yr holiadur cyn cymhwyso yn cael ei ystyried ar yr un pryd â'ch cynnig am dendr.

Mae gan yr adran ystadau drefniadau tendro ar wahân, ac mae'n gweithredu "Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy" ar Constructionline, sy'n cael ei diweddarau'n gyson. Felly, os yw contractwr yn dymuno cael ei ychwanegu at y rhestr o gontractwyr cymeradwy, bydd gofyn iddynt i gofrestru ar Constructionline, os nad ydynt wedi cofrestru eisoes, a hefyd bydd angen iddynt i gwblhau ffurflen gais fer. Unwaith y byddant yn cael eu derbyn ar y "Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy", bydd yr adran Ystadau yn gwahodd contractwyr i dendro am brosiectau ar sail gylchdroadol, ac felly bydd yr holl gontractwyr ar y rhestr gymeradwy yn cael cyfle i dendro rywbryd.

Pan fyddwch chi wedi cael eich derbyn i dendro am brosiect, bydd y ddogfennaeth tendro yn cael ei anfon atoch oddi wrth yr adran dendro berthnasol. Fel arfer bydd y dogfennau tendro'n cynnwys yr wybodaeth ganlynol:-

- Gwahoddiad i dendro rhan 1 (cyfarwyddiadau i'r rhai sy'n tendro)
- Gwahoddiad i dendro rhan 2 (ffurflenni i'w cwblhau a'u dychwelyd)
- Manylion
- Darluniau (os yn gymwys)
- Amodau'r cytundeb neu amodau prynu, yn cynnwys yr atodiadau perthnasol megis canllawiau Iechyd a
- Diogelwch ayb
- Gofynion y datganiad o ddull (os yn gymwys) h.y. sut yr ydym yn disgwyl i chi gyflawni'r cytundeb
- Label dychwelyd y tendr â chyfeiriad arno'n barod
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall

Er bod dogfennau tendro'n eithaf manwl, ac mae cyflenwyr a chontractwyr llai yn medru eu hystyried nhw'n bethau beichus, nid eu bwriad yw eich digalonni â'ch atal rhag tendro am fusnes. Os oes gennych unrhyw gwestiynau'n ymwneud â'r dogfennau yna peidiwch ag oedi cysylltu â'r person a enwyd fel pwynt cyswllt yn y dogfennau tendro.

Bydd gofyn i chi gwblhau a dychwelyd eich dogfennau tendro erbyn amser a dyddiad penodol, gan ddefnyddio'r label dychwelyd tendr. Wrth dychwelyd y tendr sicrhewch nad yw'r amlen wedi'i marcio gyda marc post y cwmni nac unrhyw wybodaeth arall sy'n datgelu pwy sydd wedi'i anfon. Mae'r holl ddogfennau tendro'n cael eu hagog ar yr un pryd, a gwneir hyn ym mhresenoldeb dau swyddog dynodedig. Unwaith yr

agorir y tendrau, bydd y dogfennau tendro'n cael eu gwerthuso gan y panel gwerthuso priodol. Os fyddwch yn methu â dychwelyd y dogfennau tendro erbyn y dyddiad cau a bennwyd, bydd eich tendr yn cael ei eithrio o'r broses werthuso.

Mae mwy a mwy o fusnes y sector cyhoeddus yn cael ei wneud ar ffurf electronig, ac yn y dyfodol agos byddwn yn anelu at gyflawni ein holl weithrediadau masnachol ar ffurf

electronig h.y. bydd yr holl dendrau'n cael eu hanfon allan a'u dychwelyd ar ffurf electronig.

Os nad ydych yn medru cyflawni eich busnes yn y modd hwn ar hyn o bryd, yna rydym yn gofyn i chi ystyried hyn yn ofalus ar gyfer y dyfodol.

Sut I Ddod Yn Contractwr Cymeradwy I'r Adran Ystadau

Er mwyn cael eich cynnwys ar restr o contractwyr cymeradwy'r adran Ystadau, bydd angen i chi gofrestru gyda Constructionline yn ogystal â chwblhau ffurflen gais fer. Yn unol â'n hymrwymiad i "Agor Drysau - Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig", bydd y rhestr yn cael ei diweddarau'n gyson, a bydd y contractwyr a dderbynnir ar y rhestr yn cael eu gwahodd i dendro ar sail gylchdroadol. Bydd hyn yn sicrhau fod yr holl gyflenwyr yn cael cyfle i dendro am waith rywbyrd.

Rhoi Cytundebau

Rhoddir cytundeb yn seiliedig ar y meini prawf gwerthuso a ddefnyddir. Ar gyfer prynu rheolaidd safonol gellir rhoi cytundeb yn seiliedig ar bris yn unig. Fodd bynnag, y maen prawf arferol yw "MEAT" (Y Tendr sydd Fwyaf Manteisiol yn Economaidd). Mae hyn yn galluogi'r Gwasanaeth i ddwyn i ystyriaeth ffactorau eraill, megis ansawdd a chynladwyedd, wrth wneud penderfyniadau am roi cytundebau.

Caiff cytundebau eu gwerthuso gan ddefnyddio matrices ansawdd / pris, sy'n ein galluogi i fesur addasrwydd y cyflenwr yn erbyn y meini prawf gwerthuso a bend-erfynwyd o flaen llaw, a hefyd mae'n ein galluogi i ddwyn i ystyriaeth pris y tendr. Mae defnyddio'r matrices hwn yn ein galluogi i bwysu'r meini prawf gwerthuso yn unol â'u perthnasedd a'u pwysigrwydd i gytundebau penodol, ond mae hefyd yn sicrhau fod yr holl gyflenwyr yn cael eu gwerthuso mewn modd cydradd a thryloyw. Yn ogystal, mae'n bosib bydd gofyn i'r cyflenwyr i roi cyflwyniad neu fynychu cyfarfod fel rhan o'r broses o werthuso.

Os yw'r panel gwerthuso yn fodlon y gall y cyflenwr neu'r contractwr sydd â'r sgôr uchaf yn medru diwallu'r gofynion, yna nhw fydd yn llwyddiannus a byddant yn cael y cytundeb.

Bydd y cyflenwr neu'r contractwr llwyddiannus yn cael ei hysbysu yn ysgrifenedig yr un pryd a'r cyflenwyr a'r contractwyr aflwyddiannus. Yn unol ag arfer gorau, rydym yn dilyn cyfnod safiad stond 10 diwrnod Alcatel ar gyfer pob cytundeb, p'un ai ei fod uwchlaw'r trothwy tendrau Ewropeaidd ai peidio. Mae hyn yn golygu ein bod yn caniatáu cyfnod o 10 diwrnod rhwng yr amser mae'r cyflenwr llwyddiannus yn cael ei hysbysu a'r amser maent yn arwyddo dogfennaeth y cytundeb. Mae hyn yn galluogi i unrhyw wrthwynebiadau i gael eu lleisio gan y cyflenwyr aflwyddiannus, os ydynt yn dymuno gwrthwynebu. Bydd dogfennaeth y cytundeb yn dilyn o fewn cyfnod rhesymol o amser.

Ceisio Atborth Wedi Rhoi Cytundeb

Os yw cyflenwr neu gontractwr yn aflwyddiannus, a'i fod yn dymuno cael atborth, fe ddylai gysylltu â'r swyddog a enwir yn y ddogfennaeth tendro. Byddant yn medru egluro pam y bu'r tendr yn aflwyddiannus ac o bosib gallant roi cyngor ar sut all y cyflenwr / contractwr wella ei siawns o fod yn llwyddiannus yn y dyfodol.

Archeb Swyddogol Ac Anfonebau

Byddwch yn ymwybodol, os gwelwch yn dda, y bydd Archebion Pryniant yn cael eu gosod yn uniongyrchol gan y defnyddwyr terfynol, a leolir ar draws ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'n rhaid i gyflenwyr a chontractwyr i beidio â derbyn unrhyw gyfarwyddiadau i gyflenwi nwyddau neu wasanaethau i'r Gwasanaeth heb dderbyn rhif Archeb Pryniant swyddogol yn gyntaf. Gosodir pob archeb yn unol ag amodau a thelerau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a gellir eu lawrlwytho trwy gyfrwng www.mawwfire.gov.uk. Mae'n rhaid dyfynnu'r rhif Archeb Pryniant perthnasol ar unrhyw anfonebau dilynol a gyflwynir i'r Gwasanaeth. Bydd unrhyw anfonebau nad sy'n dyfynnu rhif archeb pryniant swyddogol (oni bai ei fod wedi'i eithrio rhag gwneud hynny o flaen llaw gyda chytundeb y Gwasanaeth) yn cael eu dychwelyd i'r cyflenwr. Gellir derbyn anfonebau ar ffurf electronig trwy gyfrwng e-bost i finance@mawwfire.gov.uk neu drwy'r post i'r:

Adran Gyllid
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Y Pencadlys Heol Llwyn
Pisgwydd
Caerfyrddin
SA31 1SP

Fel arfer bydd anfonebau'n cael eu talu o fewn 30 diwrnod oni bai fod anghydfod, ac mewn achosion o'r fath bydd y cyflenwr yn cael ei hysbysu o natur yr anghydfod mewn da bryd a pha gamau adferol sy'n ofynnol.

Cyflawni Cytundebau

Mae gweithdrefnau'n bodoli i fonitro perfformiad cwmnïau sy'n cyflawni cytundeb ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Bydd cwmnïau'n cael eu monitro i asesu eu bod yn cydymffurfio â'r meini prawf perfformiad a benderfynwyd o flaen llaw. Mae'n rhaid bod eich cwmni'n medru cyflawni gofynion y cytundeb, a dylech chi fod yn ymwybodol

y bydd amodau'r cytundeb yn cael eu cymhwyso'n llym, yn enwedig gyda golwg ar ansawdd a pherfformiad yn gyffredinol. Yn gyson rydym yn ymdrechu i wella ein perfformiad ein hunain ac rydym yn disgwyl i'n contractwyr i wneud yr un peth. Bydd y Gwasanaeth yn asesu, o ddifrif, sefyllfa unrhyw gontractwr sy'n methu perfformio i'r safonau sy'n ofynnol. Bydd gofyn i'n contractwyr i gynnig sylwadau ar unrhyw faterion yn ymwneud â pherfformiad a adroddir.

Os fyddwch yn anfodlon gyda'n perfformiad, fel cwsmer, yna dylech chi gysylltu ag aelodau o'r tîm caffaeliad corfforaethol, a fydd yn cyflafareddu ar eich rhan. Credwn yn gryf mewn gweithio mewn partneriaeth, a gwnawn ein gorau i sicrhau fod ein cyflenwyr yn cael eu trin yn deg.

Fodd bynnag, dylech chi fod yn ymwybodol fod achosion difrifol o berfformiad gwael, nad sy'n cael eu cywiro, yn debygol o anghymwyso eich cwmni rhag cael ei ystyried ar gyfer busnes yn y dyfodol. Nid yw'r Gwasanaeth yn gyfrifol am unrhyw effaith y caiff hyn ar fusnes y cwmni. Gallai enghreifftiau o berfformiad gwael gynnwys:

- Ansawdd gwaith sy'n annerbyniol.
- Diffyg arolygaeth ar y safle.
- Methu cwrdd â dyddiadau cau.
- Dim digon o reolaeth dros is gontractwyr.
- Arferion iechyd a diogelwch gwael.

Pethau I'w Gwneud Ac I Beidio Â'u Gwneud

Gall y rhestr wirio isod fod o gymorth i chi:

- Darparwch unrhyw wybodaeth a geisir ar amser ac ar y ffurf a ddymunir. Cofiwch mai'r dyddiad a roddir ar gyfer ymateb yw'r dyddiad olaf y gellir ei dderbyn fel arfer, ac fe'n gorfodir ni'n gyfreithlon i anghymwyso cyflwyniadau diweddar.
- Astudiwch ein hysbysebion yn ofalus; dyma eich cyfle i benderfynu p'un ai gall eich busnes gyflawni'r cytundeb.
- Fel arfer bydd enw a rhif ffôn cyswllt y blaen swyddog sy'n gyfrifol am y cytundeb yn gynnwysedig – efallai byddai o fudd i chi ei ffonio fel y gallwch drafod a deall gofynion y cytundeb. Bydd hyn yn eich atal rhag gwastraff eich amser a'ch arian yn tendro am gytundeb na fedrwch ei gyflawni mewn gwirionedd.
- Darparwch unrhyw ddata cyn cymhwyso yn gywir, ac ar y ffurf a ddisgrifiwyd.
- Sicrhewch fod gennyh brawf postio.

- Rhowch fanylion cyswllt clir a chryno, yn cynnwys rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a manylion ffacs.
- Adolygwch eich polisiau yn rheolaidd, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol.
- Sicrhewch eich bod yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau i'r rhai sy'n Tendro ac unrhyw reoliadau eraill sy'n gymwys, oherwydd gallai peidio â gwneud hynny eich anghymwysu o'r broses dendro.
- Peidiwch ag addo rhywbeth os ydych yn gwybod na fedrwch chi gyflawni mewn gwirionedd.
- Peidiwch â'i gadael hi nes y funud olaf i baratoi a chyflwyno eich tendr.
- Peidiwch â bod ofn holi cwestiynau, oherwydd ein nod yw sicrhau eich bod chi'n deall ein gofynion yn llwyr cyn i chi gyflwyno tendr.

Manylion Cyswllt Yr Adran Caffaeliad

Mr Lyn Jones FMAAT
Pennaeth Caffaeliad

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth
a Gorllewin Cymru
Y Pencadlys
Heol Llwyn Pisgwydd Caerfyrddin
SA31 1SP

Ffôn: 0370 6060699
Est: 4448
Llinell Uniongyrchol: 01267 226848

E-bost: l.jones@mawwfire.gov.uk

Mr Andrew Davies
Swyddog Pwrcasu

Ffôn: 0370 6060699
Est: 6672
Llinell Uniongyrchol: 01792 705257
E-bost: aj.davies@mawwfire.gov.uk

Ms Helen Rees MCIPS
Rheolwr Caffaeliad

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth
a Gorllewin Cymru
Y Pencadlys
Heol Llwyn Pisgwydd Caerfyrddin
SA31 1SP

Ffôn: 0370 6060699
Est: 4449 / 6678
Llinell Uniongyrchol: 01267226849/
05511443378

E-bost: h.rees@mawwfire.gov.uk

Mr David Williams
Swyddog Caffael

Ffôn: 0370 6060699
Est: 4447
Llinell Uniongyrchol: 01267 226847
E-bost: dh.williams@mawwfire.gov.uk

Ymholiadau Cyffredinol – procurement@tancgc.gov.uk



www.mawwfire.gov.uk

**SUT I WERTHU I WASANAETH TÂN AC
ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN
CYMRU**
